



Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**6 Awst 2020**

## **Comisiynydd Heddlu a Throsteddu Dyfed-Powys**

### **Ymateb amlasiantaeth i'r adroddiad ar gam-drin plant yn rhywiol yn yr amgylchedd teulu**

Yr wyf yn croesawu galwadau'r Arolygiaeth i roi mwy o flaenoriaeth i gam-drin plant yn y teulu. Dylai plant fod yn ddiogel yn eu cartrefi eu hunain, ac yn rhydd rhag ofn a niwed. Dyna pham yr wyf wedi ymrwymo i wella'r ffordd yr ymatebir i ddioddefwyr trosedd sy'n blant a'r ffordd y maent yn cael eu cefnogi.

Yr wyf wedi addo ariannu rôl cymorth dioddefwyr sy'n blant i weithio'n agosach gyda gwasanaeth dioddefwyr a thystion Heddlu Dyfed-Powys, Goleudy. Byddaf yn disgwyl i'r rôl hon nodi'r arsylwadau o fewn yr adroddiad, a byddaf yn monitro'r gwahaniaeth mae'r rôl yn ei wneud i'r dioddefwyr mwyaf agored i niwed yn ein hardal sy'n blant.